# Anifeiliaid a Chynefinoedd

## // Gemau a Gweithgareddau



# CREU CADWYN FWYD

### Crynodeb

**Mae'r gweithgaredd hwn yn annog dealltwriaeth o lif egni o fewn cadwyni bwyd.**

### Gwybodaeth ac adnoddau ategol:

Llinyn

*CARDIAU ADNODD -* Cadwyni bwyd

### Beth i'w wneud...

1. Gwasgaru'r nifer o gardiau sydd eu hangen o amgylch yr ardal.
2. Mae lliwiau penodol ar y cardiau fel eu bod yn creu un set ar gyfer pob cadwyn fwyd.
3. Gofyn i'r dysgwyr ddod o hyd i un cerdyn yr un, cyn chwilio am ddysgwyr eraill sydd â chardiau'r un lliw.
4. Rhoi amser ar gyfer trafod beth mae'r cardiau yn ei gynrychioli. Ydyn nhw'n fwytawyr haul, bwytawyr planhigion neu fwytawyr anifeiliaid?
5. Gofyn i bob grŵp drefnu ei hun i mewn i gadwyn fwyd, o'r brif ffynhonnell egni i'r defnyddiwr olaf.